Cyngor Tref Llandeilo Fawr

Llandeilo Fawr Town Council

Cofnodion o Bwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 13eg Mehefin, yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 8.10 pm

Presennol: Y Maer Cyng Richard Wallace, Cyng Colin Jenkins, Cyng Dawn Wallace, Cyng Ieuan Gwyn, Cyng Ros Bellamy, Cyng Hugh Towns, Cyng Roy Davies. Mr Roger Phillips, Clerc y Dref, Mr Christopher Plummer, Swyddog Cyllid, Mr Des Davies, Swyddog Technegol.

Ymddiheuriadau : Dim

Cof 82 / Mehefin / 07 Enwebiadau ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Cynigiwyd y Cyng Ieuan Gwyn gan y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd hyn gan y Cyng Roy Davies. Roedd pawb o blaid.

Cof 83 / Mehefin / 07 Enwebiadau ar gyfer Is gadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Cynigiwyd y Cyng Ros Bellamy gan y Cyng Dawn Wallace ac eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace. Roedd pawb o blaid.

Cof 84 / Mehefin/ 07 Anfonebau i'w talu.

Penderfynwyd y dylid talu'r anfonebau canlynol

Konica Minolta (tâl gwasanaeth)	£ 5.82	Cynigiwyd gan y Cyng Richard Wallace Eiliwyd gan y Cyng Dawn Wallace.
WCVA (Cyflogai Mai)	£ 159.76	Cynigiwyd gan y Cyng Richard Wallace Eiliwyd gan y Cyng Dawn Wallace.
WCVA (Gweinyddiaeth Mai)	£ 34.66	Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy Eiliwyd gan y Cyng Hugh Towns
Treuliau'r swyddog technegol	£ 55.55	Roedd pawb o blaid.
Treuliau'r swyddog cyllid	£ 37.98	Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins Eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace.
Aelodaeth FCFCG	£ 45.00	Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns Eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy
Claudine Le Corre (ysgrifennu arwydd)	£ 48.00	Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns Eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy
JW Thomas (Bwydlen y Maer)	£ 95.00	Cynigiwyd gan y Cyng Roy Davies Eiliwyd gan y Cyng Hugh Towns.
Cytunwyd ar y canlynol Gefeillio Tref Llandeilo (mae'r rhodd hon am ddwy flynedd)	£1000.00	Cynigiwyd gan y Cyng Richard Wallace Eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins Roedd pawb o blaid.

Adran Ieuenctid Clwb Rygbi Llandeilo £50.00
(rhoddwyd gan gwmni'r Ffair a chafodd ei roi yn y banc mewn camgymeriad fel elw o'r arddangosfa Tân Gwyllt). Cynigiwyd gan y Cyng Roy Davies ac eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy

Cof 85 / Mehefin /07 Incwm a Dderbyniwyd Mai 2007

Llog cyfrif cyfredol £ 1.02

Cof 86 / Mehefin / 07 Balansau'r Cyfrifon
Cofnodwyd a **Derbyniwyd** yr adroddiad canlynol o gyllid y Cyngor:

LTC	CYFRIF CYFREDOL (30.5.07)	£ 23,294.92
LTC	CYFRIF CYNILO (27.3.07)	£ 37,982.66
LTC	CYFRIF TREULIAU'R MAER (20.5.07)	£ 500.06

Cof 87 / Mehefin / 07 Materion Ariannol Eraill

1. Lwfans y Maer 2007-8
   Cynigiodd y Cyng Hugh Towns gynnydd o 3% fel arfer. Eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins.
   Bydd hyn yn rhoi lwfans o £3450.00. Roedd pawb o blaid.
2. Rhagolwg o'r Gyllideb Tair Blynedd.
   Darparwyd manylion o'r rhagolygon a wnaed gan y Swyddog Cyllid.
   Gofynnodd y Maer y Cyng Richard Wallace am swm ychwanegol gael ei roi ar gyfer y goleuadau Nadolig. Cynigiodd y Cyng Hugh Towns £2000 yn ychwanegol. Eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy. Mae hyn yn golygu fod yna gyfanswm o £9,000. Atgoffwyd Cadeiryddion y gweithgorau y dylent baratoi eu cyllidebau ar gyfer 2008-9 erbyn cyfarfod mis Tachwedd.
   Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at GSC i gwyno am gyflwr Parc Penlan o gofio am y dathliadau canmlwyddiant sydd ar ddod i gyflwyno'r Parc i'r Dref.
3. Ceisiadau am Gymorth Ariannol (Chwarterol)
   a) Cangen Llandeilo o'r RNLI (adran 137 band B) £100
      Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns, eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy
   b) Canolfan Gynghori Rhydaman a'r Cylch (adran142 band B) £100
      Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy, eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins£100
   c) "Cruse Carmarthenshire" (adran 137 band B)
      Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy, eiliwyd gan y Cyng Hugh Towns £100
   d) Ambiwlans Awyr Cymru (adran 137 band A)
      Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns, eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins£150
   e) Mencap Cymru (adran 137 band A)
      Cynigiwyd gan y Cyng Roy Davies, eiliwyd gan y Cyng Hugh Towns £100
   f) Cymdeithas Henoed Llandeilo (adran 137)
      Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins, eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace £100
   g) Cymorth i Fercher Caerfyrddin (adran 137 band B)
      Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns, eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins£100
   h) Sioned Jones (gwaith gwirfoddol dramor)

Cynigiwyd gan y Cyng Dawn Wallace, eiliwyd gan y Cyng Roy Davies£100

Cof 88 / Mehefin/ 07 Gohebiaeth Parthed Cyllid

Doedd yna ddim gohebiaeth parthed cyllid

Cof 89 / Mehefin / 07 Unrhyw fater arall sydd oherwydd amgylchiadau arbennig ym marn y Cadeirydd yn haeddu sylw brys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

1. Dywedodd y Cyng Hugh Towns y byddai'n archwilio'r Asesiad Risg Ariannol ac adrodd yn ôl yng nghyfarfod nesaf o'r Cyngor llawn.
2. Dywedodd y Swyddog Technegol bod angen rhoi sistern toiled newydd. Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy y dylid rhoi caniatâd i'r gwaith hwn gael ei wneud. Eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace.
3. Dywedodd y Swyddog Technegol fod y ffenestr yn y to yn gollwng. Cynigiodd y Cyng Hugh Towns y dylid rhoi ffenestr 'velux' yn ei lle. Eiliwyd hyn gan y Cyng Colin Jenkins gyda uchafswm o £1000.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.15 pm.